Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro

Taliadau Uniongyrchol

Canllawiau i'r Cwsmer ar gyfer Rheolaeth Ariannol

07-2008-DP

Cyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai

Mynegai

Adran	Teitl	Rhif tud.
1.	Cyflwyniad	1
2.	Eich Cyfrif Banc Taliadau Uniongyrchol	1
3.	Taliadau Uniongyrchol Anarferol	2
4.	Ffioedd Banc	3
5.	Arian Dros Ben	3
6.	Taflenni Incwm a Gwariant	4
7.	Adolygiad Monitro Blynyddol	4
8.	Taflenni Amser	6
9.	Dod â Thaliadau Uniongyrchol i Ben	6
10.	Adolygiad Blynyddol o Gyfraddau Taliadau Uniongyrchol	7
11.	Yswiriant	7
12.	Deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch	7

1. CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Sir Penfro dan orfodaeth gyfreithiol i fonitro unrhyw Daliadau Uniongyrchol. Er mwyn gwneud hyn bydd rhaid i chi roi tystiolaeth i ni eich bod chi wedi gwario'r arian ar wasanaethau yn unol â'r pecyn gofal a gytunwyd. Er y bydd y Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai ar y cyd â gweithwyr o Sefydliad y Gerddinen yn gwneud popeth a allwn i'ch helpu chi i reoli eich Taliadau Uniongyrchol yn iawn, chi fydd yn gyfrifol am gadw'r cofnodion sydd eu hangen ac am gydymffurfio â gofynion y gyfraith. Mae'n rhaid rhoi unrhyw wybodaeth ariannol y bydd unrhyw swyddog neu gynrychiolydd o'r Cyngor Sir yn gofyn amdani.

2. EICH CYFRIF BANC TALIADAU UNIONGYRCHOL

Mae Taliadau Uniongyrchol i'w gwneud trwy BACS (System Clirio Awtomataidd Bancwyr - Bankers Automated Clearing System) i mewn i'ch cyfrif Taliadau Uniongyrchol. Bydd papur BACS yn cael ei anfon trwy'r post atoch chi i roi gwybod i chi faint sydd wedi ei ddodi yn eich cyfrif ac i ba gyfnod o bedair wythnos y mae'n berthnasol. Byddwch yn derbyn Taliadau Uniongyrchol bob pedair wythnos yn unol â'r **Rhaglen Daliadau a Dychweliadau Pedair Wythnos.**

Mae'n hanfodol bod gennym drywydd archwilio clir. Oherwydd hyn mae'n rhaid defnyddio'r cyfrif Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Taliadau Uniongyrchol gan yr Awdurdod hwn yn unig ar ffurf eich cyfraniad wythnosol a aseswyd. Gellir gwario trwy Siec, Debyd Uniongyrchol, Archeb Reolaidd yn unig, neu drwy unrhyw ddull sy'n fodd i ni weld bod y gwariant yn briodol a'i fod wedi ei wario i ddiwallu eich anghenion a aseswyd.

Mae'n haws hefyd fel hyn i chi reoli eich Taliadau Uniongyrchol yn effeithiol, oherwydd y bydd cadw'r cyfrif yn hollol ar wahân yn fodd i chi weld yn glir iawn sut mae eich cyfrif Taliadau Uniongyrchol yn dod yn ei flaen. Ni ddylech ddefnyddio unrhyw gyfrif arall i dalu am y gofal y mae'r Taliadau Uniongyrchol wedi eu llunio i dalu amdano.

Bydd angen tystiolaeth ar gyfer pob trafodiad sy'n gysylltiedig â'ch cyfrif Taliadau Uniongyrchol. Oherwydd hyn mae'n amhriodol ar gyfer tynnu arian mas oherwydd ni fyddai tystiolaeth i gefnogi lle gallai'r arian hwn fod wedi ei wario yn y pen draw. Os bydd arian yn cael ei dynnu mas unrhyw amser, yna bydd angen derbynebau er mwyn rhoi cyfrif am y swm cyfan. Mae'n rhaid cadw'r rhain yn y ffeil ac mae'n rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio os bydd gofyn.

3. TALIADAU UNIONGYRCHOL ANARFEROL

Fel arfer bydd Taliadau Uniongyrchol yn adlewyrchu lefel arferol o wasanaethau a gytunwyd, a fydd yr un fath bob wythnos. Dylech ddisgwyl taliad "arferol" mwy neu lai bob pedair wythnos.

Gall taliad anarferol ddigwydd oherwydd:

- Costau cychwyn
- Newid er mwyn ad-dalu gordaliad
- Atal rhan o daliad
- Newid dros dro yn eich anghenion gofal

4. FFIOEDD A LLOG CYMDEITHAS ADEILADU / BANC

Os byddwch chi wedi mynd i ddyled yn eich cyfrif Taliadau Uniongyrchol ac wedi gorfod talu costau, bydd rhaid i chi dalu'r swm a godwyd i mewn i'ch cyfrif. Yn anaml iawn, e.e. pan allai taliad BACS fod wedi ei oedi, bydd yr Awdurdod yn ystyried ad-dalu costau a gafwyd.

Ar y llaw arall fe allai llog gronni yn eich cyfrif Taliadau Uniongyrchol. Os bydd llog yn cronni, gallwch ei ddefnyddio i leihau eich cyfraniad i'ch Taliadau Uniongyrchol dan y Polisi Prisiau Tecach.

5. ARIAN DROS BEN YN Y CYFRIF TALIADAU UNIONGYRCHOL

Mae'n debyg bod arian dros ben yn hanfodol ar gyfer rheoli Cynllun Taliadau Uniongyrchol yn effeithiol.

Er enghraifft, bydd angen gwyliau blynyddol ar Gynorthwy-ydd neu Gynorthwywyr Personol y byddwch yn eu cyflogi. Bydd hyn yn golygu newidiadau yn eich trefniadau gofal a gallai olygu y bydd rhagor o gostau i'w talu am y gofal yn eu lle. Mae'n rhaid gweithio mas y Taliadau Uniongyrchol er mwyn i arian wrth gefn gronni i dalu'r costau ychwanegol hyn.

Mae'r arian wrth gefn hwnnw yn gallu bod hyd at un cyfnod talu pedair wythnosol o Daliadau Uniongyrchol ar ddiwedd y flwyddyn (31ain Mawrth bob blwyddyn), y gellir ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol newydd. Gall fod yn uwch yn ystod y flwyddyn ond bydd gormod o arian wrth gefn sy'n fwy na'r swm hwn ar ddiwedd y flwyddyn yn cael ei wrthbwyso yn erbyn taliad cyntaf y flwyddyn ariannol.

Os ydych yn gwybod am unrhyw wariant sy'n dal i fod yn ddyledus (credydwyr) dylech roi gwybod i'r cynrychiolydd perthnasol o'r Gyfarwyddiaeth Gofal Cymdeithasol a Thai. Os gallwch chi roi tystiolaeth o'r credydwyr, bydd modd atal neu leihau'r ad-daliad fel y bo'n briodol.

6. Y DAFLEN INCWM A GWARIANT

Bydd rhaid i chi lenwi'r Taflenni Incwm a Gwariant pob tro y daw arian i mewn i'ch cyfrif Taliadau Uniongyrchol, neu pan yw gwariant yn mynd mas ohono. Bydd rhaid anfon y taflenni hyn yn ôl yn yr amlenni a roddir. Yna bydd y rhain yn cael eu harchwilio a'u cadarnhau a'u hanfon yn ôl atoch chi.

7. MONITRO AC ADOLYGU BLYNYDDOL

Bydd gweithwyr Gofal Cymdeithasol a Thai yn monitro ac adolygu'r taliadau a wneir i chi pan fyddant yn derbyn eich **Taflenni Incwm a Gwariant.** Mae'r rhain wedi eu llunio'n bennaf er mwyn gweld bod popeth yn "mynd yn iawn", fel y dylai. Bydd yn gyfle i weld mân amryfusedd a chywiro hynny mewn modd rhesymol o hyblyg.

Bydd rhaid i chi anfon yr adroddiad/au banc ar gyfer eich cyfrif Taliadau Uniongyrchol bob chwarter. **(Gweler y Rhaglen Daliadau a Dychweliadau Pedair Wythnos).**

Ar gyfer archwiliadau Gofal Cymdeithasol a Thai bydd rhaid i chi gyflwyno'r pethau canlynol i'w monitro:

- **Adroddiadau Banc**
- **Bonion llyfr siec**
- **Bonion neu bapurau llyfrau talu i mewn**
- **Cofnodion derbynebau, taliadau ac anfonebau**
- **Taflenni amser**
- **Cofnodion Personél eraill (e.e. gwyliau, salwch)**
- **Papurau BACS**
- **Cofnodion PAYE/YG**
- **Copïau o bapurau cyflog neu atodlenni cyflog**
- **Tystiolaeth o gofrestru'n gyflogwr gyda Chyllid y Wlad**
- **Tystysgrif Yswiriant sy'n cydymffurfio â Deddf Atebolrwydd Cyflogwr (Yswiriant Gorfodol) 1969**
- **Anfonebau am ofal a brynir i mewn**

Fe allech chi dderbyn ymweliad monitro yn eich cartref, neu fe allay cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol a Thai gasglu'r dogfennau am gyfnod byr.

Ar ben hynny bydd y cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol a Thai yn sicrhau y cefnogir taliadau o'r cyfrif Taliadau Uniongyrchol gydag anfonebau/cofnodion cyflog a'u bod yn unol ag anghenion a ddynodwyd.

Dylech fod yn ymwybodol y dylid cadw cofnodion ariannol am o leiaf chwe blynedd.

8. TAFLENNI AMSER

Os byddwch yn cyflogi CP yn uniongyrchol, yna dylai ef neu hi lenwi Taflen Amser pob tro y bydd yn dod i weithio. Ar y Daflen Amser mae manylion y dyddiau y gweithiodd pob CP, a nifer yr oriau yr oeddent gyda chi. Bydd hyn yn gymorth i chi hefyd ar gyfer gweithio mas cyflog y CP am yr wythnos honno. Bydd rhaid i chi lenwi Taflen Amser gyda manylion gwyliau ac absenoldeb salwch eich CP.

Mae'n rhaid cadw'r taflenni amser yn y ffolder a roddir ac mae'n rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio os bydd gofyn.

9. DOD Â THALIADAU UNIONGYRCHOL I BEN

Os byddwch yn penderfynu peidio â defnyddio Taliadau Uniongyrchol ac yn dymuno mynd yn ôl i wasanaethau a drefnir neu a ddarperir yn uniongyrchol, mae'n rhaid i chi roi pedair wythnos o rybudd.

Bydd unrhyw gyfraniadau sy'n ddyledus gan ddefnyddiwr y gwasanaeth yn cael eu hadennill. Bydd yr hyn sydd dros ben yn y cyfrif yn y diwedd, os oes, yn cael ei adennill hefyd.

Bydd y cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol a Thai yn gofyn am gael gweld eich cofnodion sy'n ymwneud â'r cyfrif Taliadau Uniongyrchol pan fydd yn cael ei gau, er mwyn gwneud archwiliad.

Pan fydd y Cwsmer yn marw, bydd y cynrychiolydd Gofal Cymdeithasol a Thai yn gwneud yr hyn sydd raid i adennill arian sydd dros ben. Gallai'r arian hwn sefyll yn y cyfrif Taliadau Uniongyrchol hyd nes bydd holl drafodion dyledwyr a chredydwyr wedi eu hystyried.

10. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYFRADDAU TALIADAU UNIONGYRCHOL

Bydd cyfraddau yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Ni fydd unrhyw newid o raid o ganlyniad i'r adolygiad, ond mae'r cyfraddau'n gallu newid oherwydd:

- Newid yn eich anghenion a aseswyd a fyddai'n newid y taliad gros
- Lwfans ar gyfer chwyddiant
- Newid yn eich ffi wythnosol a aseswyd dan y Polisi Prisiau Tecach a fyddai'n effeithio ar y swm a dynnir o'ch taliad gros.

11. YSWIRIANT

Byddwch chi'n gyfrifol am sicrhau bod digon o Yswiriant gennych chi ar gyfer unrhyw hawliad y gallai eich CP ei wneud yn eich erbyn, e.e. os caiff anaf tra bydd yn gweithio i chi. Efallai y bydd modd i chi drefnu hyn trwy eich Yswiriant Cynnwys Cartref os oes gennych chi hynny, Fish Insurance, neu drwy Ymgynghorydd Ariannol Annibynnol. Mae'r Taliadau Uniongyrchol wedi eu gweithio mas i gynnwys yr arian hwn.

12. DEDDFWRIAETH IECHYD A DIOGELWCH

Disgwylir i chi barchu'r Rheoliadau Iechyd a Diogelwch trwy sicrhau, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol o ymarferol, y diogelir iechyd, diogelwch a lles eich gweithiwr (gweithwyr) tra bydd(ant) yn gweithio.